OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 3211 (Cy.304)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2003

Wedi'u gwneud - -	*9 Rhagfyr 2003*
Yn dod i rym - -	*31 Rhagfyr 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 140(4) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi(**1**) sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru (**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2003 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2003.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 1992" yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**3**).

Diwygio Rheoliadau 1992

2. O ran y blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2004, diwygir Atodlenni 2 a 4 i Reoliadau 1992 fel a ganlyn:—

(a) ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 yn lle "0.999" rhoddir "0.998"; a

(b) yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992 rhoddir yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1988 p.41.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1992/3238, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (Cy.47), 2000/3382 (Cy. 220), 2001/3910 (Cy.322) a 2002/3054 (Cy.289).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

D. Elis-Thomas
9 Rhagfyr 2003 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.